**CYMRAEG: IAITH GYNTAF**

**CYNLLUN MARCIO CY3**

**IONAWR 2013**

**Adran A**

**Defnyddio Iaith**

Cyfanswm o **40** marc

(a) Rhoddir 2 farc am bob brawddeg sy'n dangos ystyr a defnydd yn eglur a chywirdeb ieithyddol. Rhaid dangos ystyr yn eglur cyn ennill marciau.

1 neu 2 wall – colli ½ marc
Mwy na 2 wall – colli 1 marc
Ystyrir gwallau atalnodi e.e. acen grom neu atalnod llawn, yn wallau. Hefyd pan gyflwynir dwy frawddeg yn lle un, ystyrir hyn yn un gwall.

**gorffennir:** rhaid cyfleu'r ffurf amhersonol yn yr amser presennol / dyfodol yn gywir a defnyddio 'gan' yn y frawddeg.

*Gorffennir* y gwaith adeiladu gan y cwmni cyn bo hir.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

*Gorffennir* y gwaith adeiladu gan y gwmni cyn bo hir.
Dyfernir 1½ marc gan ei bod yn dangos ystyr a defnydd ond cosbir y gwall treiglo.

*Gorffennir* y gwaith adeiladu gan y cwmni.
Dim marciau gan na ddangosir amser y ferf.

**y gwelais:** defnyddir 'a' ar ddechrau cymal perthynol lle bo'n cynrychioli goddrych neu wrthrych y ferf sy'n dilyn. Ar flaen pob cymal perthynol arall defnyddir 'y(r)'.

Dyma'r wraig *y gwelais* ei gŵr yn y cyngerdd.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

Hon yw'r giât *y gwelais* y bachgen yn neidio drosti.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

Dyma'r gwraig *y gwelais* ei gŵr yn y cyngerdd.
Dyfernir 1½ marc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd ond cosbir y gwall.

**pe bawn:** mae'r cysylltair 'pe' yn cael ei ddefnyddio wrth ddynodi amod. Nid yw'r weithred wedi digwydd. Yn aml bydd yn dibynnu ar ryw weithred arall neu amod a honno heb ei chyflawni. Mae 'bawn' yn un o'r ffurfiau wrth ddefnyddio'r amodol 'pe', amser amherffaith dibynnol.

© WJEC CBAC Cyf.

Gallwn orffen y gwaith *pe bawn* yn canolbwyntio.
*Pe bawn* i wedi codi'n gynt byddwn wedi dal y bws bob bore.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr atebion hyn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

**er gwaethaf:** rhaid cyfleu ystyr yr arddodiad yn gywir.

Yr ydym yma o hyd *er gwaethaf* pawb sy'n ein gwrthwynebu.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

**gŵyr:** rhaid dangos yr amser yn glir yn y frawddeg sef trydydd person unigol amser presennol neu'r dyfodol. Ni ellir rhoi marciau os gellir rhoi *'gwyddai'* yn lle *'gŵyr'* yn y frawddeg. Mae angen *tag amser* neu *tag arferiadol* i gyfleu'r presennol arferiadol.

**Gŵyr** ef fod ganddo ryddid i fynd i'r dref bob amser cinio ar hyn o bryd gan nad oes ymarferion.

Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

Gŵyr ef fod ganddo ryddid i fynd i'r dref bob amser cinio.
Dim marciau gan na ddangosir amser y ferf.

**(5 x 2 = 10)**

(b) Rhoddir 1 marc am bob gwall a gywirwyd ac 1 marc am bob esboniad cywir. Rhaid i'r cywiriad fod yn gywir cyn ennill marc. Disgwylir bod y disgyblion yn defnyddio termau cywir e.e. rhagenw, arddodiad, rhagenw perthynol, cysylltair, cymal.

(i) **a allwn > y gallwn:** angen defnyddio'r rhagenw perthynol 'y' yn y cymal oherwydd dilynir y rhagenw perthynol gan ragenw blaen 'eu' sy'n cyfeirio at yr 'ardaloedd'.

**ei > eu:** angen defnyddio'r *rhagenw blaen (trydydd person lluosog)* 'eu' gan ei fod yn cyfeirio at yr enw lluosog 'ardaloedd'.
½ marc am nodi rhagenw yn unig
1 marc am nodi rhagenw ac enw lluosog

(ii) **dywedir > dywed/ dyweda:** angen berf bersonol yma sef trydydd person unigol amser presennol y berfenw 'dweud' ac nid berf amhersonol gan fod y goddrych yn cael ei enwi.

**bod hi ddim yn > nad yw hi'n:** angen defnyddio'r negydd 'nad' wrth negyddu cymal enwol. Ni ddylid negyddu cymal drwy ddefnyddio 'dim'. Rhaid defnyddio 'nad yw' gan fod y frawddeg yn yr amser presennol.

(iii) **Glywais i > Chlywais i mo'r / Ni chlywais:** pan fo'r ferf yn negyddol rhaid treiglo 'p,t,c' yn llaes.

**mewn > yng ngwaith:** angen defnyddio'r arddodiad 'yn' yn hytrach na 'mewn' gan fod y frawddeg yn cyfeirio at waith disgybl penodol. Mae'r gwaith yn bendant.
½ marc am nodi arddodiad anghywir yn unig.

© WJEC CBAC Cyf.

(iv) **pan yn > wrth gerdded / pan oeddwn yn cerdded/ pan gerddais/ pan gerddwn:** wrth ddefnyddio'r *cysylltair* 'pan' mewn cymal cadarnhaol dylid rhoi *berf* i'w ddilyn./ Rhaid defnyddio berf ar ôl 'pan'
½ marc am nodi bod angen arddodiad 'wrth' yn lle 'pan'.

**gwelaf > gwelais:** angen defnyddio berf person cyntaf unigol amser gorffennol yn hytrach na'r amser presennol gan fod y weithred wedi digwydd yn yr amser gorffennol.

(v) **os oedd > a oedd:** cwestiwn anuniongyrchol sydd yma felly rhaid defnyddio'r geiryn gofynnol 'a'. Nid oes amod yn y frawddeg ac felly ni ddylid defnyddio'r *cysylltair* 'os'.

**cafodd cymeradwyaeth > cafodd gymeradwyaeth:** *gwrthrych* berf yn treiglo'n feddal.

**(10 x 2 = 20)**

(c) Bydd 10 gwall yn y paragraff a rhoddir 1 marc am gywiro pob gwall. Os bydd gwall sillafu neu atalnodi yn y geiriau a ddefnyddir wrth gywiro yna collir ½ marc am bob gwall e.e.

| | |
|---|---|
| a ellir: | y gellir 1 marc |
| | y ellir ½ marc |
| Gallesid profi | gallwch brofi 1 marc |
| | gallwch profi ½ marc |

Bydd angen i'r ymgeiswyr ailysgrifennu'r paragraff a **thanlinellu'r** cywiriadau.

Dyma enghraifft sut y gellir cywiro'r paragraff **(10 x 1 = 10)**

Nid does lle gwell i **dreulio** penwythnos/ **fwrw Sul** gyda'r teulu na**g** yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog. Dyma wyliau perffaith y gellir **ei** ystyried/ **eu h**ystyried **gystal** â gwyliau dros y môr gyda phawb yn siarad Cymraeg. Cewch oriau o bleser yn ymlacio a **chael** gwefr wrth wneud amrywiaeth o weithgareddau gyda chymorth **y** swyddogion. **Gellir** profi / **Gallwch** brofi prydferthwch yr ardal leol **pan** fo hi ar ei gorau wrth gerdded y llwybr arfordirol. Dewch i fwynhau **c**wmnïaeth teuluoedd eraill o **Fôn i Fynwy/ Gymru benbaladr**.

© WJEC CBAC Cyf.

Gweld ei fro fel **rhan annatod o'i hunaniaeth** a wna Waldo a gwelwn bwysigrwydd Cymru a'r iaith Gymraeg iddo wrth iddo edrych allan ar y byd drwy ffenestr ei iaith a'i ddiwylliant.

Yn yr un modd gellir ystyried cerdd Myrddin ap Dafydd yn gerdd nid yn unig am Indiaid Gogledd America ond yn gerdd am hunaniaeth, am y berthynas unigryw rhwng gwlad a'i phobl, am y cysylltiad rhwng iaith a thir ac am bob cenedl a fu dan fygythiad erioed. Mae yntau fel Waldo gynt yn boenus o ymwybodol o'r bygythiad i'r iaith a chenedligrwydd y Cymry. Gallwn glywed adlais o Dryweryn yn y geiriau 'argae a phibelli dŵr'. Coda'n hymwybyddiaeth ni o'n hanes cythryblus a thrist yn y gerdd 'Gwenllian'. Yn union fel Gwenllian, mae'r Gymraeg wedi cael ei hesgymuno ac mae'r iaith hithau'n alltud i sawl rhan o Gymru erbyn hyn. Mae tristwch yn llais y bardd wrth gyfleu 'distawrwydd didosturi'. Mae yma feirniadaeth arnom ni fel Cymry nad ydym yn trysori ein hiaith yn ddigonol.

**Y ddau wedi mynd yn ôl mewn hanes:** y ddau wedi troi at ffigurau'r gorffennol am ysbrydoliaeth. Waldo ar y naill law wedi cael ei ysbrydoli gan yr 'eneth ifanc', Myrddin ap Dafydd ar y llaw arall yn ennyn ein cydymdeimlad at Gwenllian ac yn ei thrafod o safbwynt heddiw. Daw'r cymeriadau yn fyw i ni drwy gyfrwng geiriau.

**Rhybuddio'n dawel y mae'r ddau fardd:** Myrddin ap Dafydd yn proffwydo tranc ein gwlad gan rybuddio'n glir am beryglon colli'n hiaith a'n hetifeddiaeth. Yn y gerdd 'Dau lygad ar un wlad' mae'n dwysáu ei weledigaeth ac yn proffwydo gweld dinistr *'y ddaear na ddaw'n ôl'*. Waldo wedyn yng nghlo ei gerdd 'Preseli' yn ymbil arnom i warchod ei ardal a'i gwerthoedd gan fod rhyw rym yn bygwth ei gymdeithas ddelfrydol.

Eto mae'r **ddau yn heddychlon, y ddau yn cynnig gobaith ac arweiniad a'r ddau yn meddu ar agwedd gadarnhaol at fywyd ac at Gymru.** Roedd gan Waldo Williams gred sylfaenol yn naioni dyn ac mae'i olwg ar fywyd yn un llawn gobaith. Ceir gobaith y bardd yn treiddio drwy'r cerddi, y gobaith am y dyfodol yn cael ei drosglwyddo wrth ddefnyddio delweddau arbennig. Yn yr un modd caiff Myrddin ap Dafydd ysbrydoliaeth a chaiff ei argyhoeddi, fel y mae'r llanw'n troi'n sydyn ar draeth Lafan, y daw'r iaith eto *'i mewn dros dywod Menai'* gan ennill ei thiriogaeth. Sylweddola fod yna obaith, gobaith y bydd pobl y tro hwn yn dod i gofio am Gwenllian a gobaith wrth ystyried sefyllfa'r iaith y bydd hithau'n dychwelyd i hawlio ei phriod le yng Ngwynedd ac yng Nghymru gyfan.

Dylent gyfeirio at ddefnydd y beirdd o fesurau ac arddull wrth ymdrin â themâu a syniadaeth y beirdd.

**Efallai y byddant yn cyfeirio at:**

**Geneth Ifanc**

- ymweld ag Amgueddfa Avebury yn Wiltshire lle gwelodd y bardd ysgerbwd merch ifanc mewn gwydr yn hanu o ddyddiad 2,500CC
- myfyrdod, ac o weld ysgerbwd y ferch mae'r bardd yn cael ei atgoffa am ei chwaer a fu farw'n ifanc, yn ddeuddeg oed; pwysleisia iddo golli ei chwaer a hithau ynghanol hwyl bywyd
- *'Deuddeg tro yn y Croeso Mai'* a gafodd y ferch cyn i'r *'cydymaith tywyll'* sef marwolaeth fynd â hi ymaith
- pwysleisia'r bardd y distawrwydd ar ôl marwolaeth y ferch
- dychmygai weld yn y cyfnod, wrth ail greu ei bywyd, bobl heddychlon yn trin y tir a dyma ddiddordeb y bardd yn ei chynefin
- gosod ei fys ar symlrwydd cynhenid bywyd, byd natur yn hael a'r tir yn rhoi gobaith
- cawn bwysleisio gwerth heddychiaeth a'i gred mewn brawdgarwch wrth iddo ddarlunio cymdeithas waraidd, amaethyddol gyntefig
- ceir sicrwydd am nefoedd yn y gerdd hon ac mae'r bardd yn myfyrio ar ddirgelwch bywyd

